Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Teitl y Swydd: Ysgogwr Newid (Natur, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio)

## Gradd 4: £40,971- £45,576 y flwyddyn

**Dyma ni:**

Mae newid diwylliant yn y sector cyhoeddus, gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a diogelu buddiannau Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd yn rhan o gylch gwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i thîm yn gyfrifol am helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Gan ganolbwyntio ar roi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus, asesu cynnydd yn ogystal â her adeiladol, mae'r Comisiynydd yn chwilio am bobl sy'n angerddol, yn argyhoeddiadol, sy'n canolbwyntio ar bobl ac yn gallu dod â'r Ddeddf yn fyw er mwyn sicrhau'r newid sydd ei angen gan y rhai parod a'r rhai nad ydynt mor barod.

**Ai dyma chi?**

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd â gwybodaeth, arbenigedd, rhwydweithiau a phrofiad arbennig o fewn meysydd polisi sy'n ymwneud â natur, newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.

Yn benodol, mae'r Comisiynydd wedi canolbwyntio ar ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus; trafnidiaeth; tai; yr effaith gysylltiedig ar gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol; a hefyd sut y gall gwariant cyhoeddus drwy osod cyllideb a chaffael gyfrannu at gyrraedd targedau sero net.

Fel Ysgogwr Newid yn ein tîm byddwch yn rhywun sydd â dealltwriaeth ddofn o'r hyn y mae'r Ddeddf yn ceisio ei gyflawni. Byddwch yn deall sut i sicrhau newid yn y sector cyhoeddus a byddwch yn gadarn yn eich penderfyniad i gefnogi dull y Comisiynydd o fod yn ymarferol, yn siarad yn syml ac yn heriol yn adeiladol.

Byddwch wedi ymrwymo i fod yn hynod gysylltiedig â'n partneriaid ac yn ymwneud yn helaeth â'n her o ddod â'r Ddeddf yn fyw a sicrhau'r newid diwylliannol sydd ei angen i wneud hynny.

Rydych yn naturiol yn chwilfrydig ac yn frwdfrydig am syniadau newydd a ffyrdd newydd o weithio a byddwch yn barod i ddod o hyd i atebion arloesol i broblemau a materion gan ddefnyddio eich menter eich hun.

Byddwch yn gyfathrebwr rhagorol a all droi theori yn enghreifftiau ymarferol ac yn gallu adeiladu hygrededd yn gyflym gyda chydweithwyr ac uwch swyddogion mewn sefydliadau eraill ac yn y Llywodraeth.

Rydych yn rhywun a fydd yn deall sut mae'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn gweithio ond a fydd yn barod i'w herio.

Byddwch yn onest ac yn syml gyda phobl ac yn gallu ennyn ymddiriedaeth a hyder gyda'r bobl rydych yn gweithio gyda nhw ac yn gweithio iddynt.

Mae hwn yn dîm sy'n gwerthfawrogi gwneud penderfyniadau cynhwysol ac arweinyddiaeth ar y cyd.

**Eich diben**

Eich prif ddiben yw monitro a chefnogi arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan groesawu'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio y mae'n eu nodi, a'u herio i weithredu.

Byddwch yn bennaf gyfrifol am waith o fewn y meysydd polisi amgylcheddol a amlinellir uchod – ond mae ein gwaith yn rhyng-gysylltiedig a bydd disgwyl i chi gyfrannu at lawer o wahanol feysydd o fewn y tîm.

Byddwch yn cyfrannu at ein llwyddiant drwy arwain darnau o waith a chyfrannu at eraill, gan addasu eich rôl a'ch pwrpas gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf ar unrhyw adeg benodol wrth i gynnyrch ddatblygu.

Byddwch yn ceisio deall gwahanol nodau ac agendâu'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar bobl i feddwl yn wahanol, i gwestiynu, i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau, gan gymryd risgiau cyfrifedig priodol.

Mae'r 5 ffordd o weithio yn greiddiol i'n gwaith ac mae cydweithrediadau a phartneriaethau yn bwysig i'n tîm. Byddwch yn cynllunio, yn nodi ac yn meithrin perthnasoedd gyda phartneriaid (o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a busnes) a rhyngddynt (ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a busnes) sy'n debygol o fod yn bwysig i gyflawni ein cylch gwaith a gweledigaeth y Comisiynydd yn llwyddiannus.

**Eich cyfrifoldebau:**

- Cyfrannu at waith monitro ac asesiad statudol y Comisiynydd o gyrff cyhoeddus, gan adeiladu ar y mewnwelediadau a gafwyd drwy ddarparu cyngor a chymorth.
- Rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ar natur, datgarboneiddio a phynciau cysylltiedig.
- Ymchwilio i feysydd polisi a deddfwriaeth perthnasol i ddatblygu a chynhyrchu briffiau a safbwyntiau polisi crefftus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Defnyddio ymchwil i herio a chefnogi cyrff cyhoeddus yn eu gwaith i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Cyfrannu at lwyddiant y tîm trwy arwain darnau o waith a chyfrannu at eraill.
- Chwilio am gyfleoedd i ysgogi'r newidiadau sy'n ofynnol gan y Ddeddf gan gynnwys meysydd blaenoriaeth polisi penodol.

- Defnyddio'r 5 ffordd o weithio a gweithio mewn partneriaeth bob amser a sefydlu cydweithrediadau ystyrlon ag eraill, gan feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach.
- Dylanwadu'n rhagweithiol ar newid gweithdrefnol neu bolisi mewn cyrff cyhoeddus.
- Monitro effeithiau ac effeithiolrwydd ein gwaith.
- Gweithio gydag aelodau'r tîm i gynhyrchu cynhyrchion gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu deall, gan gynnwys ffeithluniau, siartiau, graffiau ac ystadegau.
- Nodi a gweithredu ffyrdd arloesol o weithio i ni ein hunain ac i eraill.
- Cynhyrchu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan weithio'n agos gyda'n tîm cyfathrebu.
- Gweithredu yn ogystal â siarad a chadw'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wrth wraidd popeth a wnawn.

**Sut beth yw llwyddiant**

- Fframio dadleuon a chael materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a sero net ar agendâu cyrff cyhoeddus ac adrannau'r Llywodraeth.
- Annog ymrwymiadau aml gan weinidogion, y Llywodraeth a llunwyr polisi eraill.
- Cael y Ddeddf, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, a materion yn ymwneud â'r argyfwng hinsawdd allan o'r ochr flaen ac yn ganolog mewn polisi. Er enghraifft, mwy o gyfeiriadau cywir at y Ddeddf, targedau sero net ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn y Cyfarfod Llawn, ceisiadau am wybodaeth a chyswllt/ymwneud â CGT gan Weinidogion y Cabinet, yr Ysgrifennydd Parhaol, uwch weision sifil a rhanddeiliaid eraill.
- Sicrhau newid gweithdrefnol yn y ffordd y mae'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus ac eraill yn mynd ati i wneud penderfyniadau polisi ar faterion sy'n berthnasol i newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.
- Effeithio ar gynnwys polisi ee deddfwriaeth / ymrwymiadau polisi mewn perthynas â newid hinsawdd a datgarboneiddio
- Dylanwadu ar newid ymddygiad mewn sectorau allweddol eraill, nid dim ond y rhai sy'n pennu polisïau.

**Eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad**

*Sylwer y byddem yn eich annog i gynnwys mewnwelediad personol o'ch profiadau bywyd ynghyd â'ch profiad gwaith proffesiynol wrth ddangos eich addasrwydd ar gyfer ein swyddi.*

**Hanfodol:**

Byddwch yn gallu dangos dealltwriaeth ddofn o gynnwys, nodau, gofynion penodol a heriau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bydd gennych wybodaeth, arbenigedd, rhwydweithiau a phrofiad o fewn meysydd polisi yn ymwneud â natur, newid hinsawdd a datgarboneiddio. Yn benodol, datgarboneiddio'r sector cyhoeddus; trafnidiaeth; tai; cyfiawnder cymdeithasol cysylltiedig; a sut y gall gwariant cyhoeddus drwy osod cyllideb a chaffael gyfrannu at gyrraedd targedau sero net.

Yn ogystal â dealltwriaeth dda o bolisi ac ymrwymiadau natur a hinsawdd yng Nghymru, ynghyd â heriau gweithredu, bydd gennych hefyd ddealltwriaeth o gyd-destun y DU a chyd-destun rhyngwladol a bydd gennych brofiad o ddysgu a thynnu o arfer da sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Bydd gennych brofiad o gynhyrchu briffiau polisi, ymchwil, cyngor a chyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â'r meysydd polisi hyn yn arloesol.

Bydd gennych brofiad o weithio gyda rhanddeiliaid lefel uwch (mewn rhinwedd bersonol, wirfoddol neu broffesiynol) a byddwch yn gallu rhoi enghreifftiau diriaethol o'ch gallu i berswadio a dylanwadu arnynt i gyflawni nod a rennir.

Bydd gennych brofiad blaenorol o adeiladu partneriaethau strategol aml-asiantaeth effeithiol gan weithio ar y cyd â diplomyddiaeth, adeiladu consensws ac atebion ymarferol i broblemau.

Byddwch yn gallu cyfathrebu eich gwybodaeth gyda hygrededd a hyder, a chyfleu cysyniadau anodd mewn dogfennau briffio a lluniadau hawdd eu deall.

Bydd gennych brofiad o gyflwyno i ystod eang o gynulleidfaoedd – o Aelodau'r Senedd, i gynulleidfaoedd technegol, i leygwyr.

Bydd gennych y gallu i drin setiau data, sgiliau ymchwil a dadansoddi polisi a sgiliau ymgysylltu a chynnwys pobl.

Byddwch yn gallu dangos eich sgiliau trefnu eithriadol, gan weithio'n annibynnol yn aml dan bwysau i amserlenni heriol, gan ddangos llygad am fanylion a'r gallu i reoli gofynion cyfaint ac amrywiaeth ar yr un pryd.

**Dymunol:**

Byddwch yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Bydd gennych brofiad o roi cyfweliadau gyda'r cyfryngau.